

## Cymry Amlwg a fu yn Lerpwl Hydref eleni



Manon Steffan Ros (ar y dde) yng nghwmni Beryl Williams ar ddiwedd ei darlith ar Ysbrydoliaeth



Dr. Bruce Griffiths, y geiriadurwr o Fangor, yn gwerthu rhai o'i lyfrau ar ddiwedd darlith ddifyr yn y Ganolfan Gymraeg



Y mae ar ddod i Lerpwl ar Nos Sadwrn 24-12-2016!

Dr. Dafydd Morris yn derbyn ei wobwr oddi wrth Dr. Rhys Davies, Trefnydd Cynhadledd Cymdeithas Feddygol Cymru a gynhaliwyd yn Lerpwl ym mis Hydref. Testun yr englyn oedd Chwilen neu Cariad. Dyma ei englyn:

Un band oedd cyfaredd byd – yn eu rhythm  
Fe'n rhoes oll ar symud:  
Eu hafaiath, a'u swyn hefyd,  
A'u hwyl nhw, oedd "All you need...".

Meddyg teulu yng Ngheir Congah  
yw Dr. Dafydd Morris

Holl luniau y rhifyn o waith  
Dr. John G. Williams



Cyfanschion y Tymor i bawb o ddarllenwyr Yr Angor oddi wrth y Golygydd, y Cadeirydd, Trysorydd a'r Ysgrifennydd a phob aelod o'r Pwyllgor Gwaith a Blwyddyn Newydd Dda am 2017.

### YN Y RHIFYN HWN:

Coffâd i Mrs Doris Davies a Mary Elizabeth Tompkin. Newyddion o Bethel, Cymdeithas Cymry Lerpwl, Seion, Bethania a Cymry Birkenhead. Tudalen y Dysgwyr. Trychineb Aber-fan. Hedd Wyn - y bardd a gollwyd yn y Rhyfel Mawr.

Yn nyddiau fy mh Bentleyndod y clywais i gyntaf Carol y Blwch ond gwn na chlywais i ers hydoedd bellach. Y blwch yw'r blwch Nadolig. Arferai'r hen Gymry roddi ceiniogau yn y blwch er mwyn cofio y rhai o'u teulu oedd mewn angen am luniaeth a ychydig dros ben adeg yr Ŵyl. Dyma darddiad y Blwch Nadolig (neu ar lafar gwlad y *Christmas Box*) a fyddid yn ei agor, nid ar Ddydd Nadolig, ond drannoeth yr Ŵyl. Dyna'r adeg y rhennid anrhegion i dlodion pob bro a chwmwd a chymuned. Mynnai Triawd y Coleg (Cledwyn Jones, Merêd Evans a Robin Williams) ganu'r garol 'Dawel Nos' a 'Carol y Blwch' bob Nadolig, yn fy mh Bentleyndod, yn y Noson Lawen a ddeuai ar y radio o Neuadd y Penrhyn ym Mangor.

Braf yw cael cyflwyno Carol y Blwch i genhedlaeth newydd wrth ddyuno'n dda i chwi y Nadolig yma. Dyma hi ar ein cyfer, carol llawer mwy seciwlar na charolau ein llyfr emynau:

*Gwrandawed pob enaid ar gennad o'r llys  
A ddaeth o Gaersalem i Fethlem ar frys;  
Pob organ mewn cywair, pob telyn mewn hwyl,  
A myrdd o angylion yn cadw dydd gwyl.*

*Arweiniwyd rhyw seren uwch Bethlem a'i phyrth,  
I ddangos i'r doethion arwyddion o wyrth;  
O! Gabriel! O! Gabriel, rhaid dangos y tlws,  
O! dos â'r bugeiliaid i ymyl y drws.*

*Rho gân i'r cantorion, a chana dy hun,  
Gogoniant i'r nefoedd, tangnefedd i ddydd;  
Caed prifnod y nefoedd, Duw diddig, Duw da,  
Rho Flwch aur y Dolig yn glennig i gla'.*

Bydded Nadolig gwir lawen i bob un o ddarllenwyr Yr Angor a'u teuluoedd yn agos ac ymhell. Agorwn ein trysorau a chanwn ein carolau eleni eto.

**Coffâd:****Mrs Doris Davies**

Anfield (1930-2016)

Perthynai Doris Davies i deulu mawr. Yr oedd ei mam Catherine Carrigan yn Gymraes a bu cysylltiad y ferch a Chymru yn un agos. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu yn ifaciwi yn Llangernyw a bu yn weithgar dros y blynyddoedd yn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Clubmoor lle bu yn gefnogol i'r Brownies ac yn Brown Owl ei hun.

Addysgwyd hi yn Ysgol Gynradd Pinehurst Avenue gan i'w rhieni, Charles a Catherine Carrigan, symud i fyw yn 1927 i Bamber Road. Hwnnw oedd cartref y teulu, wyth o blant, a'r rheini. Erbyn hyn dim ond dau sydd ar ôl Kitty McCoy a'i brawd Charles a gafodd yr un enw a'i dad. Ar ôl gadael yr Ysgol gweithiodd yn siop golchi dillad yn Breck

Road, a symud yn ddiweddarach i weithio yn British Home Stores yn Lerpwl.

Priododd yn 1955 gyda Ronnie Davies, gŵr o Everton, a ganwyd iddi un mab, Trevor sydd bellach yn byw yn yr Almaen. Cwplhaodd ei dyddiau gwaith fel cynorthwydd cartrefi (*home help*) gan gyflawni'r gwaith gyda graen. Yr oedd yn hoff o ganu o bob math, emynau yn arbennig a chaneuon poblogaidd. Anwylied hi gan bawb a'i hadnabu am ei ysbryd cyfeillgar, croesawgar. Hoffai gwmni ffrindiau a phobl, a bu yn mynychu llu o sefydliadau, gan dreulio llawer iawn ym myd bowlio. Meddai ar ddisgyblaeth bersonol a bu hynny o fudd mawr iddi yn ei gwaith.

Dirywiodd ei hiechyd yn 2009 ac ym mis Tachwedd bu'n rhaid iddi adael ei chartref a derbyn gofal yng nghartref Abbotsford Road, Crosby lle y cafodd ofal teilwng. Yn y misoedd diwethaf bu'n rhaid ei symud i Gartref Phoenix yn Formby lle y derbyniodd ofal arbennig yn niwedd ei hoes. Bu'r arwyl yn Amlogfa Thornton ar fore Mercher, Gorffennaf 6 o dan fy ngofal a thelais deyrnged iddi ac am garedigrwydd ei dwy nith Rita a Barbara a'r nai Leslie, plant ei chwaer Kitty McCoy, Anfield. Coffa da amdani.

D. Ben Rees



## CORNEL Y TRYSORYDD Rhagfyr 2016/ Ionawr 2017



Mr a Mrs Geraint Roberts, Rhuthun.....	£20.00
Mrs Lilian Coulthard, Aigburth.....	£25.00
Mrs Louie Wyn Jones, Allerton.....	£20.00
Mrs Gwen Rigby, Mossley Hill.....	£20.00
Mr a Mrs Bryan Jones, Bae Colwyn .....	£20.00
Mr a Mrs John Wyn Jones, Biwmaris .....	£20.00
Mrs Eirlys Bailey, Woolton .....	£31.00
Mr John Medwyn Jones, Bae Colwyn .....	£50.00

Cyfanswm £201.00

Roderick Owen (Trysorydd)

## Un o Ddarllenwyr yr Angor -

# MRS DEVIDA BROADBENT, ROBY

Pennog wyf mewn gwirionedd o dref Nefyn yn hen Wlad Llŷn. Cefais fagwraeth ofalus a chariadus fel unig blentyn i Katie a John Owen Jones a hefyd fel unig orwyres i Laura Jones. Un o Nefyn oedd Mam a'm Tad o Garmel ger Caernarfon.

Dehreuais yn ysgol Nefyn yn dair a hanner mlwydd oed a chael fy nhywys gan fy ffrind a'm cymdoges sef Olwen Hughes Jones sydd hefyd yn byw ar lannau Merswy. Un o ffyddloniaid Capel Laird Street ydyw.

Cefais fy medyddio yng nghapel Moreia neu Gapel Wesla fel y galwyd ef a byddwn yn mynychu yr Ysgol Sul yn y bora, yn y prynhawn byddai Olwen a'i chwaer Katie yn mynd a fi i Ysgol Sul Capel Isa M.C. a hefyd i'r "Band of Hope" ar nos Iau.

Yn unarddeg oed fe es i Ysgol Ramadeg Pwllheli ac oddi yno i Goleg Technegol Sir Gaernarfon ym Mangor am ddwy flynedd. Ar y 30/9/1964 deuthum i ysbyty Broadgreen i weithio ac am weddill fy ngyrfa bum yn gweithio i'r Gwasanaeth Iechyd mewn gwahanol feysydd gan ymddeol o Ysbyty Broadgreen a gwneud cylch fy ngyrfa yn gyflawn.

Rwyf yn briod â Tom a mae ganddom un ferch sef Pamela. Fel teulu rydym yn hoff iawn o deithio'r byd ac wedi bod yn Iwcus i weld llawer o wledydd. Un o'r lleoedd wnaeth yr argraff fwyaf arnaf oedd Gwlad yr Iorrdonen a chael mynd i Fryn Nebo a gweld yr eglwys a gafodd ei hadeiladu ar y fan ble bu Moses farw a chael edrych ar Wlad yr Addewid oddi yno. Daeth geiriau un o fy hoff emynau i'm meddwl.

*"O fryniau Caersalem ceir gweled*

*Holl daith yr anialwch i gyd"*


a minnau yn edrych o'r anialwch i fryniau Caersalem. Roedd yn deimlad rhyfeddol iawn.

Deuthum i ddarllen *Yr Angor* blynyddoedd lawer yn ôl pan y'i gwelais yn siop yr Eglwys Rhyddion yn Tarleton Street pan yn prynu cardiau Nadolig Cymreig ac yr wyf yn edrych ymlaen i'w ddarllen bob mis.



*Yn yr Eglwys ar Fryn Nebo*

## Y DDAU ANGOR A'R EISTEDDFOD DDWL



Annwyl Dr Rees,

Ôn i'n meddwl efallai eich bod chi'n moyn gweld llun o'r Eisteddfod Ddwl yn Felinfach yn ddiweddar. Ces i'r llun oddi wrth David Greaney, ysgrifennydd *Yr Angor* yn Aberystwyth. Roedd yr eisteddfod yn gystadleuaeth rhwng yr wyth o bapurau bro yng Ngheredigion. Enillodd *Yr Angor* (Aber) gyda thipyn o help gan *Yr Angor* (Lerpwl). Ces i ychydig o farciau pan enillais i gystadleuaeth y dysgwyr, wedyn ychwanegodd y beirniaid fy marciau at marciau *Yr Angor*, wrth gwrs!

Dyma'r tri uchaf yn yr eisteddfod:

Yr Angor	40
Llais Aeron	30
Clonc	26

Dw i'n edrych ymlaen i'r eisteddfod nesaf...

Pob hwyl - *Mike Farnworth*

### Coffâd:

## Mrs Mary Elizabeth Tompkin, (1918-2016), Port Sunlight

Brodor o Brymbo ger Wrecsam oedd Betty Tompkin fel yr adnabyddid ac yr anwyliid hi ym mhentref Port Sunlight. Yr oedd yn un o bump o blant, a hi oedd y ferch hynaf, a dibynnid llawer gan ei rhieni. Byddai bob amser yn barod i gyflawni dyletswyddau'r cartref. Llawenydd i'w rhieni oedd y newydd da iddo basio arholiad i gael mynediad i Ysgol Uwchradd Grove Park yn Wrecsam.

Ar ôl gadael yr Ysgol cafodd gyfrifoldeb o fewn teulu yn Spital a bu yno am rai blynyddoedd. Cyfarfu â'r un a ddaeth yn ŵr iddi ef Reg Tompkin a phriodwyd hi ar 7 Medi 1940. Ganwyd Anne, y ferch yn 1942 a'r mab Frank yn 1947.

Symdodd y teulu i Port Sunlight yn 1958. Erbyn hynny yr oedd Mrs Betty Tompkin yn nyrs yn Ysbyty Clatterbridge lle y gwnaeth gyfraniad gwerthfawr.

Ymunodd y teulu â chapel hardd Christ Church yn Port Sunlight, capel Annibynwyr Saesneg cyn iddo ymuno yn 1972 gyda'r Eglwys Ddiwygedig Unedig. Etholwyd y ddau ohonynt yn flaenoriaid yn Eglwys Crist, a bu'r ddau yn affaeliad i'r achos. Loes fawr iddo oedd colli ei phriod yn Ionawr 2009 ar ôl ar ôl 68 mlynedd o fywyd priodasol. Methodd oresi ei galar, ac mewn peth amser, dechreuodd ddirywio yn feddyliol ac yn anghofus. Gofalwyd amdani yn dyner gan ei merch, ond ym mis Gorffennaf 2015 bu'n rhaid iddi symud i Gartref Gofal Summer Fields yn Rock Ferry. Bu farw ar 9 Mai 2016 a bu'r gwasanaeth yn yr eglwys a wasanaethodd mor gydwybodol ar 3 Mehefin. Clywyd yr hwiangerdd a olygai llawer iddi yn ei phlentynod, '*Suo Gân*', yn ei chroesawu i'r oedfa lle y cymerodd ei wyres, Eden ran a lle y cyflwynodd y mab deyrnged hyfryd i'w fam. Diolchwyd am fywyd gweithgar a chymwynasgar y Gymraes hon yn Cilgwri am dros wyth deg o flynyddoedd.

*Chris Maple*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

Ar y nos Fawrth gyntaf yn Hydref cawsom gyfarfod yng nghwmni Mari Gwilym a'i gŵr Emrys. Dyma'r ail dro iddynt ddod atom i Lerpwl. 'Hiwmor y Cofi a Cofis y Wlad' oedd testun y ddarlith. Diffiniad o Gofi yw rhywun sydd wedi ei eni o fewn muriau tref Caernarfon yn hytrach na Cofis y wlad oedd yn dod i mewn i'r dref. Tarddiad y gair Cofi yw Covey sef gair Saesneg am gyfaill. Bu y ddau yn sôn am eu cysylltiadau a Lerpwl. Roedd gan Emrys ewythr, brawd ei dad, oedd yn athro yn y ddinas. Roedd gan Mari hefyd deulu yma sef dwy gyfnither ac un cefnder ond, yn 5 oed, bu'n glaf yn Ysbyty Alder Hey am nifer o wythnosau. Wedyn buont yn sôn am dref y Cofis. Mae'r lle yn llawn cymeriadau a nodwedd y Cofi yw bod llawer ohonynt yn cael eu galw wrth eu fugenwau a rhoddodd Emrys eisamplau o rhain. Mae gan Gaernarfon eirfa ei hun e.e. sei, niwc, fodan, Co a lyres! Noson hwyliog.

Y nos Fawrth ganlynol daeth Manon Steffan Ros atom i sôn am 'Ysbrydoliaeth' sef beth oedd wedi ei 'hysgogi hi i ysgrifennu. Magwyd Manon ym mhentref Rhiwlas, ger Bangor. Aeth i ysgol gynradd y pentref ac wedyn Ysgol Uwchradd Dyffryn Ogwen ym Methesda. Pan oedd yn yr ysgol nid oedd yn gwneud llawer o ysgrifennu creadigol. Wedi gadael yr ysgol cafodd waith gyda Chwmni y Frân Wen, sef cwmni theatr mewn addysg. Sylweddolodd fod gan plant ffydd yn y stori y maent yn eu chlywed. Mae Manon yn ddramodydd, nofelydd i oedolion a phlant, colofnydd llên micro yn 'Golwg' ac yn ysgrifennu gemau 'Apps' cyfrifiadurol. Enillodd y fedal y ddrama yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith yn 2005 a 2006. Mae wedi ennill gwobr Tir na n-Og am ei llyfrau i blant ddwywaith. Cyhoeddwyd ei nofel gyntaf i oedolion sef 'Fel Aderyn' yn 2009 ac yn 2010 fe gyrhaeddodd y nofel rhestr fer 'Llyfr y Flwyddyn'. Bu i'w ei hail nofel 'Blasu' ennill gwobr 'Llyfr y Flwyddyn' yn 2013 ac yn 2015 cafodd ei chyfieithu i Saesneg o dan y teitl 'The Seasoning'. Ei thrydedd nofel oedd 'Llanw' a gyhoeddwyd yn 2014. Mae dylanwad ei theulu, yn arbennig ei mam, yn ymddangos fel cymeriadau cryf yn ei nofelau.

Ar y nos Fawrth olaf cyn gwyliau hanner tymor daeth Dr. Bruce Griffiths atom. Ei gampwaith yw ei fod yn gyd awdur 'Geiriadur yr Academi' – gwaith a



Mari Gwilym ac Emrys

gymerodd 20 mlynedd i'w gwblhau. 'Gwerin Eiriau' oedd testun ei ddarlith, sef sôn am ddywediadau, ymadroddiadau, geiriau a diarhebiau sydd yn cael eu defnyddio ar lafar gwlad yng Nghymru. Canolbwyntiodd ar eiriau o fro ei febyd ym Mlaenau Ffestiniog ond ychwanegodd hefyd enghreifftiau o Siroedd Môn, Trefaldwyn a Meirionnydd gan ceisio amlinellu tarddiad ac ystyr y geiriau hyn a'r dywediadau.

Dyma rai enghreifftiau: '*Morus o Drawsfnnydd*' - un lle ychwanegol wedi ei baratoi wrth y bwrdd. '*Siarad fel melin bupur*' – siarad yn ddi-baid. '*Main fel cangen haf*' sef 'maypole'. '*Diwrnod*

*priodas llwynog*' - y tywydd weithiau yn braf ac weithiau yn bwrw glaw. '*Blodyn marw mam*' - y Ddraenen wen. '*Ymbarel bwgan*' – caws llyffant.

Dim ond ychydig o engrheifftiau yw rhain ond 'roedd y gynulleidfa niferus a ddaeth i wrando ar noson stormus wedi mwynhau y ddarlith.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Cynhaliwyd ein Gŵyl Ddiolchgarwch ar y Sul cyntaf o Hydref a'r oedfa o dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees pryd y gweinyddwyd y



Bedyddio Harri



*Y teulu dedwydd*

sacrament o fedydd ar Harri Griff, mab bychan Gareth a Lauren Roberts ac ŵyr i Mair ac Idris Roberts. Braff oedd cael croesawu y teulu estyniedig. Addurnwyd y capel gyda blodau, ffrwythau a llysiau'r maes. Caed amser ar derfyn yr oedfa i gymdeithasu yn y ganolfan uwchben paned o goffi.

Pnawn Llun am 2.30 oedfa Weddi o Ddiolchgarwch o dan ofal Dr. John Williams gyda chyfraniad gan Norma Owen, Rhiannon Liddell, Ben Hughes a datganiadau o ddiolch ar gân gan Anne Jones, Ifor Griffith a Margaret Williams. Braff oedd gweld Miss Ann Roberts, Childwall wedi medru ymuno â ni ar ŵyl y diolch.

Ar nos Lun y 10fed o Hydref cyfarfu y Gymdeithas Lenyddol i raglen o 'Pawb a'i Farn'. Y panelwyr oedd Olwen Foreman, Ann Lees, Alun Davies, Brian Thomas a Dr. Arthur Thomas. Yr holwr oedd Dr. D. Ben Rees a chyflwynodd y panel i'r gynulleidfa. Dyma'r cwestiynnau a chrynhoad o'r atebion.

*1) Ydy'r panel yn credu y gall y Prif Weinidog Theresa May oresgyn Brexit?*

Camgymeriad mawr oedd cael y refferendwm yn y lle cyntaf. Teimla'r panel yn gyffredinol y byddai Brexit meddal yn well i'r wlad na hytrach na'r caled. Mae llawer o broblemau wedi codi eu pen yn barod, ansicrwydd i ddiwydiannau'r wlad, banciau yn bygwth gadael Llundain, a'r bunt eisioes wedi gostwng, a phris nwyddau yn cynyddu. Amser a ddengys a all y prif weinidog oresgyn a'n harwain drwy y newidiadau enfawr a ddaw.

*2) All y panel egluro paham mae Donald Trump mor boblogaidd ym sg rhai, a phwy, yn eu tyb hwy fydd yr Arlywydd nesaf?*

Roedd y farn yn gyntun, a'r gobaith yw i Hilary Clinton gario'r dydd ar 8 o Dachwedd.

*3) Daeth llyfr allan yn ddiweddar am*

*gaffis Cymru. Pa gaffi fydddech chi yn ei gymeradwyo?*

Daeth amrywiaeth o atebion: Y Caffi ar y Fenai, The Hut, dau gaffi ar y prom yn Aberystwyth, Dylan yn Cricieth ac un neu ddau yn Lerpwl.

*4) A ddylai'r pencampwyr olympaidd a'r para-olympaidd gael eu hurddo i'r orsedd yn Eisteddfod Môn y flwyddyn nesaf?*

Cytunodd y panel yn unfrydol i'r pencampwyr hyn gael y sylw dyladwy yn y seremoniau arbennig a berthyn i'r chwaraeon, ac na ddylid ei anrhyeddu os nad ydynt yn siarad Cymraeg.

*5) A fydddech chi'n hoffi crwydro o gwmpas y gofod am dri mis?*

Doedd dim llawer o frwdfrydedd rhag ofn iddynt fetu cyrraedd yn ôl. Y panelwyr oll yn hoffi eu traed ar y ddaear!

*6) Ymddangosodd holiadur yn yr Angor gan S4C yn gofyn pa fath o wasanaeth mae pobl eisiau ei weld ac a oes awgrym am raglenni gwahanol?*

Dymuniad i weld mwy o bobl gyffredin yn gwneud pethau cyffredin bob dydd, ac i weld mwy o drysorau'r amgueddfeydd

a'r archifdai.

Cafwyd noson ddiddorol o drin a thrafod cwestiynnau amrywiol gan banel galluog dros ben. Diolch iddynt ac i'n gweinidog am lywio'r noson mor ddeheuig yn ôl ei arfer. Rhoddodd gyfle i rai o'r gynulleidfa cael dweud ei dweud, a gwerthfawrogir hynny.

Cafwyd cyfarfod urddasol ac emosiynol i gofio am drychineb Aber-fan ar 24ain o Hydref o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol. Llywyddwyd yn feistrolgar gan Devida Broadbent, Roby a gyflwynodd y siaradwr a darllenodd pob un o'r emynau a ganwyd. Dechreuwyd trwy ganu emyn a chysylltiad gydag Aber-fan 375 "O tyred i'n gwaredu" i ddilyn gan ddarlleniad gan Roderick Owen (Math. 18: 1-14 o'r cyfieithiad diweddaraf). Yna cafwyd 'Gair o Brofiad' gan y Dr. D. Ben Rees o ddigwyddiadau'r diwrnod tyngedfennol hwnnw hanner can mlynedd yn ôl pan lithrodd y domen sbwriel, gan gladdu'r ysgol Pant-glas a'r rhai oedd ynddi. Dechreuodd y gweinidog ar ei araith drwy egluro ble roedd Aber-fan yn ddaearyddol. Bu ef yn gweinidogaethu ar y pryd mewn dwy eglwys gyfagos, Abercynon a Phenrhiwceibr, ac yn gyfarwydd iawn â'r cylch. Yr adeg honno roedd yna dri chapel yn Aber-fan, un o dan ei ofal ef yn Ynysowen a daethpwyd â chyrrff y rhai a gollodd eu bywyd i ddau o'r capeli hyn i ddisgwyl i'r rheini gael eu gweld, ond erbyn hyn doedd dim posibl eu hadnabod: rodden nhw'n ddi-"adnabod" fel y dywedodd y bardd Gwenallt yn ei gerdd *Trychineb Aber-fan* a ddarllenwyd gan y gweinidog yn ei gyflwyniad. Erbyn heddiw does yna run capel Cymraeg yn Aber-fan, er fod yna Ysgol Gymraeg yno. Doedd pobl ddim yn hapus i addoli mewn adeilad lle roedd eu hanwyliaid marw wedi bod yn gorwedd, a bu'n rhaid tynnu i lawer gapel Bethania. Eglurodd Dr. D. Ben Rees fel yr oedd y Bwrdd Glo Cenedlaethol wedi rhoi'r bai am y drychineb ar y glaw, ond nid byd natur oedd yn gyfrifol eithr esgeulustod dynion.



*Y Panel (o'r chwith i'r dde): Alun Davies, Arthur Thomas, Brian Thomas, D. B. Rees, Ann Lees ac Olwen Foreman*

Chafodd y Bwrdd Glo mo'i gosbi fel y dylid oherwydd bod pobl yn ofni colli eu gwaith pe tystiolaethent yn ei erbyn. Bu bywyd yn y pentref yn anesmyth iawn ar ôl y golled yn enwedig i'r plant a oroesodd y drychineb. Bu llawer iawn o enwogion yn ymweld â'r pentref yn y dyddiau yn dilyn a'r wlad i gyd yn anfon negeseuau ac anrhegion, a'r caredigrwydd yn anhygoel. Dywedodd Dr. Ben Rees nad oes yr un diwrnod wedi mynd heibio ers y digwyddiad ofnadwy hwnnw heb iddo gofio am y plant a'r athrawon yr oedd wedi bod yn ceisio eu hachub wedi iddynt gael eu gorchuddio o dan y sbwriel.

Yn ail ran y noson canwyd emyn 200 "Enaid gwan paham yr ofni?" Cafwyd darlenniad arall gan David John Williams, Gateacre (2 Phillippiaid 1-11) a'i ddilyn gan weddi gan y Gweinidog. Yna canwyd emyn 661 "Bugail Israel sydd ofalus" a darlleywyd tair cerdd o waith T. Llew Jones, Jac Olifer a D. Jacob Davies allan o'r blodeugerdd *Dagrau Tost* a olygwyd gan Dr. E. Wyn James a Dr. Christina James, Caerdydd.

Gorffennwyd y cyfarfod drwy ganu emyn Dafydd Charles "Mae ffrydiau ngorfoledd yn tarddu" sy'n cynnwys yr ymadrodd cignoeth "yr angau dychrynlyd a'r bedd" ac ni fu angau mwy dychrynlyd yn unman nag yn Aberfan y bore difrifol hwnnw hanner can nlynedd yn ôl. Clywsom y Gweinidog ar hyd yr wythnos ar y cyfryngau yn Cofio Aberfan.

Pnawn Sul, Hydref 30 cynhaliwyd Cymanfa Ganu Dosbarth Lerpwl yn y capel o dan arweiniad Mr. Trystan Lewis, Llandudno a'r organydd oedd Margaret Anwyl Williams. Gwahoddwyd aelodau o Undeb Gorawl Cymry Lerpwl i ymuno yn y canu. Bu paratoi trylwy'r tuag at y Gymanfa dan ofal Ifor Griffith ac roedd hyn yn amlwg o wrando ar safon y canu eneiniedig.

Yr oedd y rhannau arweiniol yng ngofal Dr. D. Ben Rees, Salm 96 ac eglurodd ei chynnwys yn gryno yn Saesneg gan atgoffa pawb bod Duw yn dymuno

moliant. Mae'r byd i ganu, a chodiad calon oedd i weld pob sedd wedi cael ei chymeryd yn y capel. Dyna'r llwyddiant a diolchir i'r Pwyllgor Mawl drefnu mor dda ar gyfer y gynulleidfa niferus. Yr oedd yr arweinydd Trystan Lewis yn gwbl feistrolgar. Soniodd yn fanwl am y cyfansoddwyr a blasus oedd gwranddo ar ei sylwadau. Da deall y bydd Cymanfa Fawr yn 2017 ar bawn Sul, 10 Medi ym Mharc Penbedw am 2.0 o'r gloch. Digwyddiad i'ch dyddiadur!

Cafwyd anerchiad byr ond i bwrpas gan Lywydd y Gymanfa, Mrs Wena Evans gan ei bod hi yn Gadeirydd Undeb Gorawl Lerpwl ac yn gorffen ei thymor diwedd y flwyddyn. Galwodd y Gweinidog hi yn 'drysor bywiog' ac y mae felly. Braff oedd cael ei chlywed mewn Cymraeg graenus a chlywadwy.

Darparwyd paned a dewis mawr o deisennau a ddaeth o'r Pwyllgor Mawl a Chwiorydd Bethel yn y Ganolfan. Bu'r cymdeithasu hyd 5 o'r gloch. Cymanfa dwy awr a hanner, awr o gymdeithasu, a awr a hanner o ganu nefolaidd, bendigedig.

### Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Cynhaliwyd ein hoedfa o Ddiolchgarwch ar 16 Hydref. Y cennad oedd y Parchedig Glenys Wilkinson, Heswall. Cawsom oedfa fendithiol dan ei harweiniad a phregeth amserol a chofiadwy. Roedd cynulleidfa deilwng wedi dod i gydnabod.

Pnawn Sul, 23 Hydref sef Sul y Beibl daeth y Parchg. Aled Davies atom o Chwilog i'n gwasanaethu. Cawsom ei longyfarch ar iddo gael ei ethol yn Ddarpar Lywydd Undeb y Bedyddwyr Cymraeg. Defnyddiodd y Beibl.Net yn ei ddarlenniadau, rhywbeth newydd iawn yn Seion. Rydym yn edrych ymlaen i gael cwmni a gwasanaeth ym mis Tachwedd, cawn arweiniad dau gennad sydd yn ffyddlon i ni sef y Parch John Barnett a'r Parch Victor Edwards, a gwerthfawogir eu llafur. Anfonwn ein dymuniadau gorau

am Nadolig Llawen a bendithiol a Blwyddyn Newydd lwyddiannus i holl ddarlennwyr *Yr Angor*.

### Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Daeth cynulleidfa dda i Oedfa Diolchgarwch Bethania ac arweiniwyd ni gan y Dr. D. Ben Rees. Croesawyd Miss Margaret Rowlands, Waterloo gan iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Deil yn sionc gan gerdded o'i chartref ger gorsaf Waterloo i'r gymuned yn Eglwys Crist. Trefnir Cinio Nadolig yr Eglwys ar bawn Sul, 18 Rhagfyr am 1 o'r gloch yng ngwesty Royal Waterloo ac y mae'r holl drefniadau yn nwylo Mrs Elin Bryn Boyd. Ar y Sul blaenorol (11-12-2016) bydd oedfa undebol am 11.15 rhwng aelodau Eglwys Bethel a ninnau ym Methania pryd y gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Anfonir ein dymuniadau a'n cofion i'n holl aelodau. Dosbarthwyd y blodau hardd o oedfa'r Diolch i'n haelodau sydd yn gaethiwus ac yn methu mynychu'r oedfaon. Diolchir am y gweithredu hyn.

### Cymdeithas Cymry Birkenhead

Yn ôl ein harfer, gwasanaeth crefyddol yw ail gyfarfod ein tymor newydd. Eleni, ar Hydref 3ydd, pleser oedd croesawu ein cyfaill y Parchedig Ddr. D Ben Rees i bulpud Capel Seion, man cyfarwydd iawn iddo. Wrth ei gyflwyno, sylwodd llywydd y noson, Mrs Mair Rees Jones, mai gwasanaeth crefyddol oedd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas hon ym mis Mawrth 1961.

Thema y cyfarfod oedd 'Cofio Aberfan', trychineb Hydref 1966, gan un oedd yn yr ardal ar y pryd, yn weinidog ifanc, dair blynedd allan o'r Coleg. Nid oes angen i mi atgoffa neb o ddigwyddiad erchyll y diwrnod hwnnw na'r gofid a erys yng nghalonau teuluoedd Aberfan. Bydd digonedd o rhaglenni i godi dagrau yn ystod yr wythnosau hyn. Ond pwysleisiodd Dr Ben yr haelioni a ddaeth o'r drychineb; y cydymdeimlo, y caredigrwydd ac ymdrechion diflino y glowyr a'r achubwyr yn ysbrydoliaeth i'r miloedd yn gwyllo dros y byd cyfan.

Dewisiwyd emynau a darlenniadau addas at y testun, "Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?" o efengyl Matthew, a ddarlennwyd gan Mrs Olwen Jones. Yn yr un Ysbryd, darlennwyd ail bennod Epistol Paul at y Philipiad gan y Barch Glenys Wilkinson, ysgrythur sy'n ein cymell i garu ein gilydd, i weithio yn ostyngedig, ac i lewyrchu Crist Iesu yn ein bywydau. Wrth gofio plant Aberfan a chywilyddio at ddifaterwch sefydliadau pwerus, cofiwn bod plant o hyd yn cael eu camdrin a'u lladd. O ddyddiau Herod hyd heddiw mae'r erchylltra yn parhau a'r

*Croeso ar fore Sul, Rhagfyr 18 i Capel Bethel (Auckland Road/Heathfield Road) am 10.30 i*

## *Oedfa Garolau*



*yng nghwmni Cantorion*

*Bethel,*

*Mr Ifor Griffith,*

*Mrs Anne M. Jones a*

*M. A. Williams.*

*Fluniaeth ysgafn ar y diwedd.*

byd yn analluog i'w rhwystro. Nid felly yr Iesu, croesawodd pob plentyn, gosododd blentyn fel enghraifft o ymddiriedaeth a gostyneiddrwydd.

Ffydd, gobaiith, cariad yw nodweddion, teyrnas nefoedd. Pwer, grym, gorthrwm, a thrachwant yw nodweddion llwyddiant mewn llawer o wledydd y byd. A thristwch yw gweld hyn yn dal i lwyddo. Gweddiwn am i ddynoliaeth ddeall mai gofal ac nid gorthrwm tynerwch ac nid trachwant sy'n ennill cyfeillion ac eneidiau. Gofalwn am eraill "a chyfrif y llall yn deilyngach na ni ein hunain". Mor wir yw'r geiriau hyn wrth feddwl am blant. Wrth gofio plant Aber-fan, cofiwn heddiw am filoedd o blant sy'n dal i ddiodeff trais a gorthrwm. Gwnaed casgliad at Hospis St John Cilgwri a'r organydd oedd Mrs Beryl van Beck.

Cyfarfu Dr. Rees a Phwyllgor Gwaith y Gymdeithas i gyflwyno cefndir Gŵyl ac Eisteddfod Heddw Wyn ar 8 a 9 a 10 Medi yn y parc, a byddwn yn falch o gydwethio yn yr ymdrech bwysig hon.

Mae enw Bethan Wyn Jones, Ynys Môn, yn gyfarwydd i Gymryar hyd a lled y wlad. Daeth y ferch dalentog alluog hon i'n diddori a'n haddysgu ar nos Lun, Hydref 17fed, gyda "Bywyd Gwyllt Glannau Môn" yn destun ei darlith.

Ganwyd ac addysgwyd Bethan ar yr ynys sy'n parhau yn gartref ac yn ddi-ddordeb diddiwedd iddi. Derbyniodd raddau yn Aberystwyth a threuliodd ei gyrfa yn y gwasanaeth Sifil a'r BBC yn

myd gwyddoniaeth, bywydeg a'r amgylchedd. Mae hi'n ysgrifennu, darlithio a darlledu ar feysydd eang ym myd natur a hawdd gweld ei brwdfydedd at, a'i meistrolaeth o'i thestun. Hefyd mae wedi cyhoeddi nifer fawr o lyfrau ar gyfer plant ac oedolion.

Gyda darluniau a mapiau, aeth Bethan a ni ar daith gerdded hyd llwybr arfordir Ynys Môn gan gychwyn yn ymyl ei chartref ger Traeth Coch. Mae'n cyfaddef iddi gymeryd dros chwe blynedd i gwblau y cant dau ddeg pump milltir – record mae'n siwr!!

Yn ogystal â blodau, planhigion, anifeiliaid a golygfeydd hudolus, cawsom ddarlun o gefndir hanesyddol a chymdeithasol yr ardaloedd – fel cartrefi Morusiaid Môn, cof golofn Dic Ifans Moelfre a'i griw ar y bad achub enwog, hanes drylliad y "Royal Charter", y diwydiant copr a brics, cofeb Richard Evans y meddyg esgyrn, a ffenestri lliw unigryw o Flandrys. Dyma ynys gyda hanes, byd natur a diwylliant heb ei ail, a rhannodd Bethan ei holl wybodaeth inni mewn modd ysgafn gartrefol, gafaalggar. Drwy porthladdoedd y glannau, corsydd a meysydd y tirwedd, coed yr ymylon, aethom o amgylch yr ynys at lannau'r Fenai a'i olygfa anhygoel, cyn troi heibio Penmon a'i hanes, yn ôl i'r Traeth Coch.

Mynegodd Mrs Iola Edwards ein hedmygedd o wybodaeth eang Bethan wrth ein haddysgu - yn arbennig am enwau Cymraeg swynol y planhigion –

a'n hybrydoli i gerdded y llwybr ac i sylwi'n fwy manwl ar y harddwch wrth ein traed ac o'n hamgylch. Llwynwen a Beti ac Anne oedd yn gyfrifol am y te a Terry oedd ein cyfeilydd.

### Colofn y Beirdd

## TYNGED TRYWERYN

Paradwys, nid bellach y bu  
Yng nghesail y moelydd unig,  
Dwndwr cread dyn  
Am hollti'r tir a'r meysydd,  
Er llunio lle i letya llyn  
Heb ystyr i'r tir a'i gnewyllyn  
Dyn sydd a'i fryd ar sychder ei dafod  
A gadw ei grym er waethaf ei gri,  
Hyn sydd i'w glywed ar lannau y

Mersi –

Afon fawr enwog i filoedd mewn trefi,  
Llydan ei llanw, llawnder ei lli  
Yn methu diferyn o'i dŵr dan dô  
Cofiwn Tryweryn, hyn yw y diwedd  
Bydd llawnder y llyn, yn ddiogel o  
ddagrau y llu.

Ken Williams,  
Gateacre,  
Lerpwl

# PEARSON COLLINSON

## TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL

GWASANAETH EFFEITHIOL -  
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

### Prif Swyddfa

87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD  
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

### Swyddfa arall

255 Speke Road, Liverpool L25 0NN  
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwrch ar 0151 722 1514



# TUDALEN Y DYSGWYR

## Nant Gwrtheyrn – Canolfan Iaith Genedlaethol - National Language Centre gan Dr. Pat a Lowri Williams

From your reading of the passage below you will learn how to say that something **was done** by someone. For example, if you want to say 'The table was painted' – noting that 'table' is either *bwrdd* (m) or *bord*, (f) the formula is:

Singular: Cafodd + subject + ei + verb

Cafodd y bwrdd ei baentio (soft mut. with masc. noun)  
Cafodd y bord ei phaentio (aspirate mut. with fem. noun)

Literally: *The table got its painting*

Plural: Cafodd y byrddau eu paentio (no mutation in plural)  
Cafodd y bordydd eu paentio (no mutation in plural)

Literally: *The tables got their painting*

There is however another more formal way of saying this by adding the ending *-wyd* to the stem of the verb. The formula is the same for both singular and plural forms:

-wyd + subject

Paentiwyd y bwrdd / y bord. (*The table was painted.*)

Paentiwyd y byrddau / y bordydd. (*The tables were painted.*)

### Tasg 1

Read the passage below about the village of Nant Gwrtheyrn, then re-write the sentences beginning with verbs in bold using the short forms ending in *-wyd*

#### Hanes Nant Gwrtheyrn

Pentref bach ym mhen Llŷn yw Nant Gwrtheyrn. Ers talwm, dim ond tair fferm ac 16 o bobl oedd yn byw yn y nant. Ond **cafodd** chwarel **ei sefydlu**<sup>(i)</sup> yn y pentref, a chodwyd tai ar gyfer y chwarelwyr. **Cafodd** tŷ mawr o'r enw 'Y Plas' **ei adeiladu**<sup>(ii)</sup> hefyd, lle roedd rheolwr y chwarel yn byw. Erbyn 1886 roedd 200 o bobl yn byw yn Nant Gwrtheyrn. Pan **gafodd** y chwarel **ei chau**<sup>(iii)</sup> aeth y chwarelwyr i ffwrdd a gadael eu tai yn wag. Ond **cafodd** y pentref **ei adfer**<sup>(iv)</sup> yn y 1970au a'i wneud yn Ganolfan Iaith Genedlaethol.

#### Geirfa

adfer	to restore
cafodd (< cael)	got (< to get)
chau (< cau, stem ceu-)	was closed (< to close)
chwarel (f), -wyr	quarry, quarrymen
ers talwm	a long time ago
gadawodd (< gadael, stem gadaw-)	left (< to leave)
rheolwr (m)	manager
wag (< gwag)	empty

### Tasg 2

Now read another passage about how Nant Gwrtheyrn got its name and do the exercise below.

#### Stori Gwrtheyrn

Brenin Caint yn ne Prydain yn y 5ed ganrif oedd Gwrtheyrn. Roedd yn amhoblogaidd iawn achos ei fod wedi gwahodd yr Eingl-Sacsoniaid i'w helpu i gael mwy o dir. Syrthiodd mewn cariad â Rhonwen, merch Hengist, brenin yr Eingl-Sacsoniaid, a gofynodd am gael ei phriodi. Yn y wledd briodas rhoddodd Hengist gyllell i bob un o'i filwyr a gorchymyn iddynt ladd y Brythoniaid i gyd. Ar ôl y brad hwn, ffôdd Brenin Gwrtheyrn i'r Nant ac yno y bu farw.

#### Geirfa

amhoblogaidd	unpopular
brad (m)	treachery
cael	to get permission
Caint	Kent
Eingl-Sacsoniaid	Anglo-Saxons

filwr (< milwr, milwyr) (m)

ffôdd (< ffoi)

gorchymyn (m)

gwledd briodas (f)

Prydain

soldier(s)

fled (< to flee)

order

wedding breakfast

Britain

A yw'r gosodiadau isod yn gywir neu'n anghywir? Tick the correct box

Are the statements below true or false? Ticiwch y blwch cywir.

	Cywir	Anghywir
(i) Roedd pawb yn hoffi Gwrtheyrn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
(ii) Roedd Gwrtheyrn yn ffrind i'r Eingl-Sacsoniaid.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
(iii) Mab-ying-nghyfraith Hengist oedd Gwrtheyrn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
(iv) Lladdwyd yr Eingl-Sacsoniaid i gyd.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

### Tasg 3

Read the passage below about the star-crossed lovers associated with Nant Gwrtheyrn and answer the questions which follow.

#### Stori Rhys a Meinir

Roedd bachgen o'r enw Rhys a merch ifanc o'r enw Meinir yn byw yn Nant Gwrtheyrn ers talwm. Syrthion nhw mewn cariad a chytuno i briodi. Roedd hen draddodiad yn y Nant o'r enw 'Y Chwilfa Briodas': h.y. roedd y briodferch yn mynd i guddio ar ddiwrnod y briodas a phawb yn chwilio amdani. Ar y diwrnod mawr aeth Meinir i guddio ond doedd neb yn gallu cael hyd iddi.

Fisoedd yn ddiweddarach gwelodd Rhys sgerbwd mewn ffrog briodas o dan y dderwen, lle bu ef a Meinir yn chwarae pan oedden nhw'n blant – sgerbwd Meinir, a oedd wedi cael ei tharo gan fellten ar ddiwrnod ei phriodas. Cafodd Rhys gymaint o fraw nes iddo farw yn y fan a'r lle.

#### Geirfa

cael hyd i	to find
cuddio	to hide
cytuno	to agree
chwilfa (f)	a hunt
chwilio	to search
derwen (f)	oak tree
diweddarach	later
fis (< mis), -oedd (m)	month(s)
fraw (< braw) (m)	fright
mellten (f)	lightning
mynd â	to take
sgerbwd (m)	skeleton
traddodiad (m)	tradition
yn y fan a'r lle	there and then

Atebwch y cwestiynau canlynol / Answer the following questions:

- Ble cafodd Rhys a Meinir eu geni?
- I ble aeth Meinir ar ddiwrnod y briodas?
- Beth welodd Rhys o dan y dderwen?
- Sut y bu farw Meinir?
- Sut y bu farw Rhys?

#### Atebion / Answers

Ymarfer 1

(i) sefydlwyd (ii) adeiladwyd (iii) ceuwyd (iv) adferwyd

Ymarfer 2

(i) anghywir (ii) cywir (iii) cywir (iv) anghywir

Ymarfer 3

(i) Yn Nant Gwrtheyrn (ii) I guddio (iii) Sgerbwd Meinir (iv) Cafodd ei tharo gan fellten (v) Cael braw



# Trychineb Aber-fan – Côr Corawl Cymry Lerpwl yn cofio'n deilwng

*“Trist iawn fu hanes eu colli  
Y plant diniwed, gwan –  
Yn Hamelin erstmalwm,  
Heddiw yn Aberfan.”*

*Y Pibydd Brith - T. Llew Jones*

Bu sylw dyladwy ar drychineb Aber-fan yn ystod mis Hydref sef rhaglenni niferus ar y teledu a'r radio gyda munud o ddistawrydd drwy'r Deyrnas Unedig am chwarter wedi naw ar fore dydd Gwener, Hydref 21ain. Fe gafwyd cofio yn Lerpwl a Phenbedw fel y gwelwn yn *Yr Angor* hefyd. Cynhaliwyd cyngerdd i gofio y trychineb 50 mlynedd yn ôl gan Gôr Corawl Cymry Lerpwl ar ddydd Sadwrn, Hydref 25ain yn Eglwys y Santes Fair, West Derby. Cafwyd anerchiad byr ond urddasol gan Gareth Howells am y drychineb cyn y gerddoriaeth. Paratowyd yr anerchiad gan Wena Evans mewn ymgynghoriad gyda Dr. Ben Rees. Yr oedd y rhaglen yn cynnwys 'Requiem' Mozart a 'Gweddi – a prayer' a gyfansoddwyd gan Arwel Hughes. Braf oedd gweld a chlywed unawdwy'r Cymraeg yn perfformio mor deimladwy a phroffesiynol ar dechrau eu gyrfa.



*Gardd y Cofio, Aber-fan*



*Galwad i Gofio Plant ein Byd*



*Cyngerdd i gofio trychineb Aber-fan*

Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi  
*Merseyside Welsh Heritage Society*

## CYNGERDD / CONCERT

**Côr Rygbi Gogledd Cymru  
(North Wales Rugby Choir)**

**Soloists: Dylan Cernyw, Gwydion Rhys  
Ionawr/January 28  
am/at 7.30pm**

**Elm Hall Drive Methodist Church**

Toynnau £10 nawr ar werth / Tickets £10 now on sale.

Y mae y Cyngerdd hwn yn rhan o ddathliadau Gŵyl Eisteddfod Hedd Wyn, a gellir archebu'r tocynnau drwy ben@garthdrive.fsnet.co.uk neu benatgarthdrive@talktalk.net. Mae'r tocynnau yn £10 ac am ddim i blant dan 12.  
*The tickets are £10 and free for children under 12.  
We look forward to welcoming you!*

## Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi Cronfa Gŵyl/Eisteddfod y Gadair Ddu Penbedw a'r bardd Hedd Wyn (1917-2017)

Rhestr 1 (hyd 31 Hydref 2016)

- i) Mrs Anne Jones, Bebington, Cilgwri .....£15.00
  - ii) Mr a Mrs Laurence Holden, Penbedw .....£50.00
  - iii) Yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies o Llanegryn, Ty'r Arglwyddi, Llundain .....£250.00
  - iv) Mrs Catrin Waugh, Hafod Wen, Llundain SE19 .....£250.00
  - v) Parchedig D. Gareth Rees a Mrs Susan Rees, Lledrod, ger Aberystwyth .....£50.00
  - vi) Cymdeithas Cymry Manceinion (trwy law y Trysorydd, Mrs Eflyn V. Evans, Didsbury) .....£100.00
- Cyfanswm .....£715.00**


*Cychwyn da i'n Cronfa.*

Ceir yr ail restr yn rhifyn nesaf o'r *Angor* a dylid anfon y cyfraniadau ariannol i Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl/Liverpool L18 6HW. Y sieciau i'w llenwi i Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi neu *Merseyside Welsh Heritage Society*. Diolchwn am eich cefnogaeth.

# 'Y Cwbl i India' fel Hosan Nadolig

Dymuniad Parch Dr Ben Rees yw y bydd pob ceiniog a godir o werthiant ei gyfrol ddiweddaraf: *The Healer of Shillong* yn cael ei gyflwyno'n llawn i Apêl y Llywydd, 'Y cwbl i India,' meddai.

Wrth i ni gyfrannu'n hael yn ddiweddar at Apêl y Llywydd i godi arian tuag at adeiladu Ysbyty newydd yn Shillong, soniwyd yn gyson am Dr. Hugh Gordon Roberts a'i gyfraniad i sefydlu a chynnal yr Ysbyty yno.



Ond buan yr â enwau'n angof. Ac er i adeiladau sefyll, wedi i'r person y cawsant eu henwi ar eu holau lithro dros ffiniau'n cof, mae'r ffaith fod eu henwau'n dal yng nghlwm wrth ryw safle neu sefydliad yn achosi'r chwilfrydig yn ein plith i chwilio am ragor o wybodaeth.

Y gymwynas a wnaeth Ben Rees â ni oedd sicrhau bod cyfraniad y Parch Ddr. Hugh Gordon Roberts yn cael ei roi ar gof a chadw i'r dyfodol, a hynny mewn modd sy'n deilwng o gyfraniad gwrthrych y

gyfrol. Gwnaeth hynny mewn ffordd drwyadl gan alluogi'r darlennydd i ddeall cyd-destun hanesyddol a chyfraniad aruthrol yr Ysbyty, ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, drwy ei chenhadon. Ceir atodiad gwerthfawr i dynnu sylw at gyfraniad Dr Arthur Hughes yn ddiweddarach i'r genhadaeth ac i ddatblygiad pellach yr ysbyty.

Mae'r bennod agoriadol sy'n sôn am dröedigaeth Dr Hugh Gordon Roberts dan weinidogaeth Evan Roberts, am ei hyfforddiant, ei alwad i'r gwaith, a'i ordeinio'n weinidog i fod yn genhadwr yn India. Mae'n rhyfeddol gymaint gyfrannodd Hugh Gordon Roberts tuag at adeiladu'r Ysbyty gyntaf o'i gyflog ei hun!

Mae'n dyled i'r Parch Ddr Ben Rees yn fawr am ei gyfrol. Ac mae gweledigaeth, dyfalbarhad a duwioldeb y gwrthrych sy'n cael ei gofnodi yng ngweddill y gyfrol yn ysbrydoliaeth i ni heddiw. Ceir dros ugain o luniau sy'n galluogi'r darlennydd i 'weld' mai pobl go iawn oedd y cymeriadau arwrol hyn.

Arwyddair yr Ysbyty heddiw yw, **'I Iachau, I hyfforddi ac i Bregethu yn ei Enw Ef.'**

Bron na allwn glywed lais Dr. Gordon Roberts ei hun yn yr arwyddair.

Er cymaint oedd ei ymdrechion dyngarol caniatodd Ben Rees i ni ddeall y weledigaeth a'r tân oedd yn llosgi'n angerddol yng nghalon Dr. Roberts. Dywedodd Parch Ddr. Gordon Roberts ei hun am ei waith. *'The hospital will be of incalculable value in helping us reach the hearts of the people. Our one great passion and desire is to lead on to Christ and the hospital is all very secondary to this. Will you ask the friends to pray for us that we may be emptied of self and live only for Christ.'* (t.41).

Cefais foddhad o ddarllen y gyfrol. Cewch fodlonrwydd pellach o wybod y bydd £10 pris y llyfr yn hybu Apêl y Llywydd. Bydd y 'cwbl i India' ac fe fydd ein pryniant yn dwyn budd i filoedd o bobl am genhedlaethau i ddod.

Gallwn archebu'r gyfrol fel rhodd Nadolig gan Dr. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl L18 6HW neu trwy ebost [benatgarthdrive@talktalk.net](mailto:benatgarthdrive@talktalk.net)

## Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llauer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2016. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.

- **Pris Yr Angor** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i [Bwyllgor Yr Angor](mailto:Bwyllgor Yr Angor). Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

### • RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR

- i) **Rhifyn Chwefror 2017** – erbyn bore Sul, 1 Ionawr, 2017, – neu ar y we i [benatgarthdrive@talktalk.net](mailto:benatgarthdrive@talktalk.net) neu [ben@garthdrive.fsnet.co.uk](mailto:ben@garthdrive.fsnet.co.uk)

- ii) **Rhifyn Mawrth 2017** erbyn pñawn Mercher, 1 Chwefror, 2017 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc.

- iii) **Rhifyn Ebrill 2017** – erbyn bore Mercher, 1 Mawrth (Dydd Gŵyl Dewi), i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 3 o'r gloch y pñawn.

- **Cofier y wefan** – [Liverpool-welsh.co.uk](http://Liverpool-welsh.co.uk) (ewch yno bob mis) a [Cymry-Lerpwl.co.uk](http://Cymry-Lerpwl.co.uk)

- **Cyfarfod nesaf Pwyllgor Gwaith Yr Angor** – 16 Ionawr, 2017 trwy'r ffôn.

## Diolch a chywiriad

Diolchwn fel Pwyllgor Gwaith *Yr Angor* am yr haelioni a ddaeth i'n papur bro er cof am Mrs Elizabeth Winifred Morris, Llanddaniel Fab, Môn. Nodwyd yn y rhifyn diwethaf o'r *Angor* inni dderbyn y swm o £200 ond llithrwyd gydag un o'r enwau, ac felly ymddiheurwn am hyn gan ddiolch unwaith yn rhagor i'r teulu, trwy ddwylo y Parchedig John Morris, gofio amdanom gan fod ei hannwyl fam yn un o Gymry Lerpwl. Coffa da am ddaioni ei bywyd.

*ar ran y Pwyllgor Golygydd a'r Trysorydd*

## Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi

Cynhelir y

**PWYLLGOR GWAITH NESAF**

**ar fore Sadwrn, 14 Ionawr 2017**

**yn 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl**

**am 10.30 o'r gloch**

**i drefnu Gŵyl/Eisteddfod Hedd Wyn**

**9 a 10 Medi 2017 ym Mharc Birkenhead.**

*Arthur Thomas, Ysgrifennydd*

# HEDD WYN

## Y Bardd a Gollwyd yn y Rhyfel Mawr

Cafodd Ellis Humphrey Evans ei eni ar y trydydd ar ddeg o Ionawr 1887, yn Nhŷ Penlan, Trawsfynydd, Meirionnydd.

Fe oedd yr hynaf o un deg un o blant, eu rhieni oedd Evan a Mary Evans. Yn y gwanwyn 1887 symudodd y teulu i fferm 'Yr Ysgwrn'. Gadawodd Ellis yr ysgol pan oedd yn bedwar ar ddeg a gweithiodd fel bugail. Ers iddo fod yn ifanc roedd e'n fardd awyddus i gystadlu am wobrau yn yr eisteddfodau. Cymerodd ran mewn nifer o eisteddfodau ac enillodd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw (Birkenhead) ym mis Medi 1917.

Yn 1910 cymerodd yr enw barddol Hedd Wyn (*Blessed Peace*).

Roedd Hedd Wyn yn caru barddoniaeth am ramant a natur ac yn 1913 enillodd ef y gadair ym Mhwillheli a Llanuwchllyn. Ym 1915, enillodd hefyd ym Mhontardawe ac yn yr un flwyddyn ysgrifennodd awdl 'Yr Eryri' ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Cipiwyd y wobwr tro hwnnw gan heddychwr ifanc o Rhydddu, T.H. Parry-Williams.

Roedd y Rhyfel Byd Mawr wedi dechrau yn 1914 ac roedd y Prif Weinidog, David Lloyd George yn awyddus i berswadio dynion ifanc i ymuno â'r fyddin. Nid oedd Hedd Wyn yn dymuno o gwbl i'w i'w frawd ifanc Robert i ymuno â'r fyddin, felly ymunodd ef yn ei le.

Ar ôl hyfforddiant yn Litherland, Lerpwl daeth Hedd Wyn gartref am bythefnos. Yn ystod y cyfnod yma, ysgrifennodd 'Yr Arwr' (The Hero). Yn anffodus roedd e'n hwyr yn mynd yn ôl at ei uned a chafodd ei garcharu. Yn anffodus, gadawodd ei gerdd gartref felly roedd yn rhaid iddo ei hysgrifennu eto. Felly mae dau gopi o'r un gerdd, un yn y Llyfyrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac un ym Mangor.

Ymunodd Hedd Wyn â'i uned 'Y Ffiwilwyr Brenhinol Cymreig' ac wedyn anfonodd gopi o Lerpwl o'r gerdd 'Yr Arwr', o dan y ffugenw 'Fleur-de-lis', i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mhenbedw. Yn anffodus, dim ond pedair wythnos ar ôl cyrraedd Gwlad Belg cafodd ei saethu yn ei stumog. Bu farw am un ar ddeg o'r gloch ar yr unfed ar ddeg ar hugain Gorffennaf 1917 ym mrwydr Pilkem Ridge. Ym mis Medi 1917 cyhoeddwyd bod y bardd o Feirionnydd a enillodd y gadair hardd a luniwyd gan ffoadur o



*Gerald Williams a'r Gadair Ddu*

wlad Belg o dan bridd tramor. Felly gorchuddiwyd y gadair mewn lliain du ac ers y seremoni emosiynol honno galwyd y digwyddiad ar lannau y Mersi ym Mharc Penbedw yn 'Eisteddfod y Gadair Ddu'. Dywedir mai yr awdl 'Yr Arwr' oedd gwaith pwysicaf Hedd Wyn. Mae'r gadair farddol yn parhau i'w gweld yn 'Yr Ysgwrn' diolch i'w nai Gerald Williams. Mae ffermdy 'Yr Ysgwrn' yn cael ei gadw er cof am y bardd a gollwyd i Moloch. Rhoddodd Parc Cenedlaethol Eryri £150,000 i gadw 'Yr Ysgwrn' fel amgueddfa. Dechreuodd Gerald Williams ymgyrch i godi arian i adeilad cofeb am

filwyr o Gymru laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Dadorchuddiodd Prif Weinidog Carwyn Jones y gofeb yn Flanders; mae e'n dangos draig o Gymru a gynlluniwyd gan arlunydd o Gymru. Cafodd ei gwneud yng Nghymru gan ddefnyddio cerrig o Bontypridd.

Yn 2009 ysgrifennodd Phil Carradine lyfr y 'Gadair Ddu' am fywyd Hedd Wyn ac enillodd y ffilm Hedd Wyn wobrau gan gynnwys 'drama Gorau' yn y Batfa yn Gymraeg, a hefyd yn y categori ffilm 'Orau mewn Iaith Dramor'. Rhaid cydnabod hefyd gyfrol safonol iawn y bardd Alan Llwyd ar Hedd Wyn, yno y ceir y stori yn gyflawn iawn.

Dyfarnwyd MBE i Gerald Williams am ei gyfraniad i dreftadaeth beirdd. Trawsfynydd. Mae cerflun efydd o Hedd Wyn wedi'i wisgo fel bugail yng nghanol pentref Trawsfynydd. Dyma englyn o eiddo Hedd Wyn sydd yn dangos ei feistrolaeth ar y cynghaneddion. a pham ei fod yn Brifardd ein cenedl. Mae yn darlunio ei fywyd ef yn berffaith.

### *Yr Arwr*

Ei aberth nid â heibio  
Ei wyneb annwyl nid â'n ango  
Er i'r Almaen ystaenio  
Ei dwrn dur yn ei waed o.

Josie Bissex

Nodiadau Ychwanegol: *Peter Jones, pensaer y gofeb yn Flanders i'r milwyr Cymreig a gafodd eu lladd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf wedi ennill y British Empire Medal gan y Frenhines.*



*Y Gofeb yn Flanders*



# Cyfarfarchion Nadolig 2016

Meinwen a D. Ben Rees, Garth Drive, Lerpwl L18 6HW yn dymuno'n dda i bawb ohonoch. CYFARCHION DIDWYLL DROS Y NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD i bobl Yr Angor.

Dymuna John a Beryl Williams NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau pell ac agos.

*Gwydrin Road, Lerpwl*

Mae Marged Jones yn dymuno NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau i gyd ar y Glannau.


*Maes Ffynnon, Rhuthun, Dyffryn Clwyd.*

Dymuna Olwen Jackson-Jones, Allerton, Lerpwl, NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'w ffrindiau yng Ngogledd Cymru a'r Glannau.


NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA i'n ffrindiau yng Nghymru a'r Glannau oddi wrth Roderick a Norma Owen.



## Nadolig da i'r plant pan ddaw Siôn Corn



*Harri Roberts, Aigburth*



*Croeso i Joseph Samuel a anwyd ar 23 Hydref, sef gor-ŵyr i Mrs Blodwen Prowting, Lerpwl. Hwn fydd ei Nadolig cyntaf.*



**Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

# CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*

*Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

*a diolchir iddo am holl waith 2016.*